DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Canolfan Ddeintyddol Porthceri

5 Mai 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i fodloni anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-3887-3
© Hawlfraint y Goron 2015

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 2
2. Methodoleg ..... 2
3. Cyd-destun ..... 4
4. Crynodeb ..... 5
5. Canfyddiadau ..... 6
   - Profiad y Claf ..... 6
   - Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ..... 9
   - Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ..... 12
   - Ansawdd yr Amgylchedd ..... 15
6. Y Camau Nesaf ..... 16

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Ddeintyddol Porthceri, 2 Heol Porthceri, y Barri, Bro Morgannwg, CF62 7AX, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 5 Mai 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym:

- Profiad y claf
- Cyflenwi'r Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau'n bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 [2]a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol eraill.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a’r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion wedi'u cwblhau

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd manylion canfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o’r modd y gweithredir safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Porthceri yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal y Barri, Bro Morgannwg. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae Canolfan Ddeintyddol Porthceri yn bractis cymysg sy'n darparu triniaeth breifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys prif ddeintydd, pedwar deintydd arall, chwe nyrs ddeintyddol, dau dderbynnydd, dau hylenydd deintyddol, a rheolwr practis.

Mae Canolfan Ddeintyddol Porthceri'n ddeintyddfa annibynnol sydd wedi'i hen sefydlu. Mae'r prif ddeintydd yn cymryd rhan weithredol o ran rhedeg a rheoli'r ddeintyddfa o ddydd i ddydd, ac mae'n gweithio'n agos â rheolwr y practis. Mae gan aelodau eraill o'r tîm deintyddol gyfrifoldeb unigol pendant am agweddau ar redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Archwiliadau a chyngor
- Triniaeth ataliol a pheriodontol (y deintgig)
- Llenwadau
- Tynnu dannedd
- Deintyddiaeth gosmetig – mewnblaniadau deintyddol, corynau, argaenau
- Cerec 3D – mewnosodiadau deintyddol a chorynau yn ystod un ymweliad
- Dannedd gosod ac atgyweiriadau
- Orthodonteg

Mae Canolfan Ddeintyddol Porthceri hefyd yn bractis sy'n darparu hyfforddiant a chefnogaeth i ddeintyddion sydd newydd gymhwyso ac sy'n dilyn hyfforddiant blwyddyn gyntaf mewn deintyddiaeth (ar ôl graddio o brifysgol). Caiff y deintyddion hyn oruchwyliaeth gan hyfforddwr a bennwyd.

## 4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut mae Canolfan Ddeintyddol Porthceri yn bodloni’r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Dywedodd y cleifion a ddychwelodd holiaduron wedi'u cwblhau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan y tîm o staff. Yn ystod sgwrs â nifer fach o gleifion ar ddiwrnod yr arolygiad, rhoddwyd mwy sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u derbyn yn y ganolfan ddeintyddol.

Roedd gwybodaeth fanwl am Ganolfan Ddeintyddol Porthceri ar gael ar wefan y practis ac yn y daflen i gleifion, a oedd ar gael yn rhwydd yn ystafelloedd aros y cleifion.

Gwelsom fod agwedd broffesiynol a chymwynasgar gan y staff wrth siarad â chleifion dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod y tîm deintyddol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cael cydsyniad dilys gan gleifion cyn dechrau triniaethau. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu cynllunio a’u darparu yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Mae'r ganolfan ddeintyddol wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei rhedeg gan y prif ddeintydd, rheolwr y practis, a thîm o staff brwdfrydig. Roedd gweithdrefnau clinigol a phrosesau sicrwydd ansawdd priodol ar waith yn y practis er mwyn sicrhau diogelwch cleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi a bod ystod o gyfleoedd hyfforddi priodol ar gael iddynt.

Roedd safle'r ganolfan ddeintyddol yn cynnig amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Roedd pob rhan o’r adeilad yn lân, yn groesawgar, yn ffres ac yn daclus.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn gan fod camau adfer wedi'u cymryd gan y ganolfan ddeintyddol yn ddi-oed mewn ymateb i'r gofynion a fynegwyd o ran eu proses a'u gweithdrefn gwyno.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd y cleifion a ddychwelodd holiaduron wedi'u cwblhau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan y tîm o staff. Yn ystod sgwrs â nifer fach o gleifion ar ddiwrnod yr arolygiad, rhoddwyd mwy sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u derbyn yn y ganolfan ddeintyddol.**

**Roedd gwybodaeth fanwl am Ganolfan Ddeintyddol Porthceri ar gael ar wefan y practis ac yn y daflen i gleifion, a oedd ar gael yn rhwydd yn ystafelloedd aros y cleifion.**

**Gwelsom fod agwedd broffesiynol a chymwynasgar gan y staff wrth siarad â chleifion dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.**

Am bythefnos cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y cleifion a fynychodd y practis i lenwi holiadur AGIC. O ganlyniad, gwnaethom dderbyn 13 holiadur wedi'u cwblhau. Darparwyd naw holiadur wedi'u cwblhau a oedd wedi'u paratoi gan y ganolfan ddeintyddol hefyd. Nododd pob claf a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn gan y practis, a'u bod wedi cael croeso gan dîm y practis a digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Ymysg y sylwadau a dderbyniwyd yn yr holiaduron AGIC roedd:

> *'Mae'r staff i gyd yn gyfeillgar iawn, a sicrheir eich bod yn teimlo'n gyfforddus a chartrefol iawn yn ystod unrhyw driniaethau. Nid oes ofn mynd i ddeintyddfa arna i ers dod yma.'*
>
> *'Mae'r staff sy'n gweithio ym mhractis deintyddol Porthceri'n gymwynasgar iawn a bob amser yn hapus.'*
>
> *'Bob amser yn gyfeillgar a hawdd mynd atynt.'*

O edrych ar yr ymatebion a dderbyniwyd yn y 22 holiadur AGIC/holiadur practis a gwblhawyd, gwelwyd bod saith claf wedi profi oediad cyn cael eu gweld ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedodd y staff fod proses wedi'i sefydlu ar gyfer hysbysu'r cleifion pe bai eu deintydd neu hylenydd yn hwyr neu'n absennol yn annisgwyl. Yn ystod sgwrs â rheolwr y practis ynglŷn ag oediadau cyn apwyntiadau, nodwyd bod y ganolfan ddeintyddol wrthi'n adolygu sut mae apwyntiadau'n cael eu rhannu rhwng ymarferwyr deintyddol. Roedd hyn er mwyn rhoi sylw i faint o amser mae cleifion weithiau'n gorfod aros i gael eu gweld ar ddiwrnod eu hapwyntiad.

Gwelsom fod cleifion yn cael cyfleoedd i roi adborth ynglŷn â'r gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u derbyn. Er enghraifft, gwelsom ganlyniadau cadarnhaol yr arolwg blynyddol a gynhaliwyd gan y practis yn 2014 er mwyn cael barn y cleifion ar y gwasanaethau a ddarperir. Dywedwyd wrthym hefyd bod tîm y practis yn gwneud pob ymdrech i weld pa un a yw cleifion yn fodlon ar eu gofal a'u triniaeth cyn iddynt adael y practis, a hynny'n ddyddiol.

Pan ofynnwyd sut roedd gwneud cwyn, nododd tri chlaf a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn gwybod sut i fynegi unrhyw gŵyn fyddai ganddynt. Fodd bynnag, nododd deg claf a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn ynglŷn â'r gwasanaethau deintyddol maent yn eu derbyn. Gwelsom fod poster ynglŷn â'r weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat wedi'i arddangos yn nerbynfa'r ddeintyddfa. Fodd bynnag, nid oedd polisi'r practis na'r weithdrefn yn cynnwys manylion am hawl cleifion y GIG i gael cymorth a chyngor ynghylch eu pryderon gan y cyngor iechyd cymuned lleol.

Gwelsom hefyd nad oedd y wybodaeth a oedd wedi'i harddangos ar gyfer cleifion preifat yn cyfeirio at yr amserlenni y byddai disgwyl i'r practis gydnabod neu ddatrys eu cwynion. Yn ogystal, nodwyd bod y print ar y poster yn fân, a oedd yn golygu efallai y byddai rhai cleifion yn cael trafferth i'w ddarllen. Trafodwyd y materion uchod gyda rheolwr y practis, a ddiwygiodd y wybodaeth a arddangoswyd yn ystod yr arolygiad. Gwnaed maint y print ar gyfer y wybodaeth i'w harddangos yn fwy hefyd, er mwyn helpu cleifion i ddeall eu hawliau o ran mynegi pryderon a'r hyn y dylent ei ddisgwyl ar ôl hynny.

Roedd gan y practis wefan fanwl, ac roedd y cynnwys ar fin cael ei ddiweddaru i gynnwys manylion aelodau presennol y tîm deintyddol (yn ogystal â'u rhifau Cyngor Deintyddol Cyffredinol).Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth berthnasol ar gael i gleifion er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u gofal a’u triniaeth ddeintyddol.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gwelsom fod y cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal â mewn argyfwng. Golygai hyn y gallai pobl fod yn hyderus, pan fyddent mewn poen, fod system ar waith i geisio sicrhau eu bod yn cael apwyntiad yn fuan.

Nododd dau glaf a gwblhaodd holiaduron AGIC ei bod weithiau'n anodd cael lle i barcio'n agos i'r practis. Ymhlith y sylwadau eraill a wnaed gan gleifion ynghylch y gwasanaeth a gawsant yn y practis hwn roedd:

> *‘Rwy'n fodlon iawn ar y driniaeth rwy'n ei chael yma.’*
>
> *‘Mae'r deintydd a'r derbynyddion bob amser yn llawn gwybodaeth ac yn ateb unrhyw ymholiadau sydd gennym.’*

> *‘Mae pawb yn garedig a chymwynasgar, ac yn hawdd iawn i fynd atynt.’*

Gwelsom ddeunydd hybu iechyd wedi'i arddangos ar y landin rhwng y llawr daear a'r llawr cyntaf yn y safle, ac roedd hwn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer cleifion am gynnwys siwgr mewn amrywiaeth o ddiodydd. Roedd taflenni i deuluoedd ar gael hefyd, a oedd yn cynnwys gwybodaeth yn y Saesneg a'r Gymraeg am ofal y geg a'r dannedd ar gyfer plant dan dair oed.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Roeddem yn gallu cadarnhau bod y tîm deintyddol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cael cydsyniad dilys gan gleifion cyn dechrau triniaethau. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod gofal a thriniaethau deintyddol yn cael eu cynllunio a'u darparu yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion.**

Gwelwyd bod y trefniadau a weithredir o ran defnyddio cyfarpar pelydr-X yn cyd-fynd â safonau a rheoliadau presennol. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau hyfforddiant ar gyfer y rhan fwyaf o'r aelodau staff perthnasol. Yn ystod sgwrs â rheolwr y practis, gwelwyd bod y ganolfan ddeintyddol wrthi'n ceisio hyfforddiant priodol ar [4]Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) ar gyfer tri aelod o staff. Gwelwyd bod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn fanwl a chlir o ran defnyddio cyfarpar pelydr-X. Roedd yn amlwg hefyd bod y deintyddion wedi cofnodi digon o wybodaeth ar y cyfan i gyfiawnhau pam y tynnwyd lluniau pelydr-X deintyddol penodol. Yn ogystal, roedd system sicrhau ansawdd briodol wedi'i sefydlu yn y ddeintyddfa er mwyn sicrhau bod ansawdd y lluniau pelydr-X o gleifion yn cael eu graddio a'u cofnodi. Gwelsom fod arwyddion yn ymwneud â'r perygl o ymbelydredd wedi'u gosod wrth y fynedfa i bob un o'r pedair ystafell driniaeth yn y ganolfan ddeintyddol.

O drafod â'r tîm deintyddol yn y ganolfan ddeintyddol, gwelwyd eu bod yn rhoi pwyslais ar gynllunio a darparu gofal a thriniaeth cleifion yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion. Cyflawnwyd hyn yn rhannol trwy archwilio hanes meddygol y cleifion yn ystod pob ymweliad er mwyn sicrhau bod newidiadau a risgiau posibl i'w hiechyd yn cael eu canfod a'u cofnodi.

Roedd y ganolfan ddeintyddol wedi sefydlu gweithdrefnau priodol i ymdrin ag achosion brys (cleifion). Roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio. Hefyd, roedd archwiliadau wythnosol priodol yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod yr holl offer brys yn barod i'w ddefnyddio. Roeddem yn gallu cadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant diweddar a pherthnasol mewn adfywio cardio-pwlmonaidd / dadebru brys. Yn ogystal, roedd dau dderbynnydd wedi cael hyfforddiant mewn cymorth cyntaf er mwyn sicrhau bod rhywun â sgiliau o'r fath yn gweithio yn y ganolfan ddeintyddol yn barhaus.

---

[4] Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, y cyfeirir atynt fel arall fel RhYÏ(DM).

Gwelsom y cedwir cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn ddiogel, ac roedd trefniadau wythnosol priodol yn cael eu gweithredu er mwyn sicrhau bod cyffuriau'n cael eu newid cyn eu dyddiad dod i ben.

Ystyriwyd y trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offer (a elwir yn ddadheintio fel arall), a gwelwyd y gweithredir dull sefydledig a thrylwyr yn y ganolfan ddeintyddol o ran yr agwedd hon ar y ddarpariaeth gwasanaeth.

Gwelsom fod rhaglen cynnal a chadw ddyddiol wedi'i sefydlu ar gyfer y cyfarpar a ddefnyddir i lanhau offer deintyddol. Roedd y rhaglen cynnal a chadw'n cynnwys archwilio cyfarpar ar ddechrau a diwedd pob dydd. Mae'r tîm deintyddol hefyd yn defnyddio stribedi prawf bob tri mis er mwyn sicrhau bod y baddonau uwchsonig[5] yn aros yn effeithiol, a chaiff y canlyniadau eu cofnodi. Hefyd, cynhelir archwiliadau dyddiol er mwyn sicrhau bod y tri awtoclaf [6] yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Cawsom sgwrs gyda nyrs ddeintyddol, a roddodd ddisgrifiad llawn a boddhaol o'r broses ddadheintio sydd ar waith. Er nad oedd ystafell ddadheintio benodol yn y safle, gwelsom fod dull priodol wedi'i sefydlu ar gyfer gwahanu offer glân oddi wrth y rhai budr ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth er mwyn lleihau perygl o groes-heintio. Gwelsom hefyd fod trefniadau addas wedi'u sefydlu ar gyfer cludo offer deintyddol rhwng ystafelloedd triniaeth, gan nad oedd lle i awtoclaf yn un o'r pedair ystafell.

Gwelsom y rhoddwyd menig a ffedogau untro a chyfarpar diogelu llygaid i'r staff eu defnyddio yn ystod eu gwaith. Yn ogystal, roedd cyfarpar diogelu llygaid ac eitemau untro ar gael i amddiffyn y cleifion a'u dillad. Croesawodd y tîm deintyddol ein cyngor i symud cwpanau plastig y cleifion a ddefnyddir i olchi'r geg yn un o'r ystafelloedd triniaeth i fan sy'n ddigon pell oddi wrth y man 'offer budr'. Gwelsom fod digon o le i storio offer deintyddol a bod cyfleusterau golchi dwylo penodol ym mhob ystafell driniaeth.

Gwelsom fod yr offer a oedd wedi'i bacio a'i gadw yn barod i'w ailddefnyddio yn cynnwys dyddiadau 'dod i ben' priodol.

Roedd yn ymddangos bod yr holl offer mewn cyflwr da. Edrychwyd ar y cofnodion cynnal a chadw cyfarpar yn y practis a'r contract parhaus sydd ar waith i sicrhau bod

---

[5] Mae bath uwchsonig yn glanhau eitemau gan ddefnyddio uwchsain (fel arfer 20–400 cilohertz) a sylwedd glanhau priodol.

[6] Siambr bwysedd yw **awtoclaf** a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio stêm dirlawn o bwysedd uchel.

gwastraff peryglus yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol. Gwelwyd bod yr holl gofnodion yn gyfredol a dilys. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu.

Roeddem yn gallu cadarnhau y cynhelir profion dyfeisiau cludadwy fel sy'n ofynnol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwnaethom adolygu sampl bach o 16 o gofnodion deintyddol. O ganlyniad, gwelsom ar y cyfan fod y cofnodion ar ofal cleifion ym mhob un o'r cofnodion deintyddol yn cynnwys gwybodaeth ddigonol ynglŷn â'r trafodaethau a gynhaliwyd am ddewisiadau o ran triniaethau a sut i gael caniatâd cleifion. Yn ogystal, gwelwyd bod sgoriau Archwiliadau Periodontol Sylfaenol (BPE[7]) wedi eu cofnodi o ran ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag oedolion, fel sy'n ofynnol dan y canllawiau clinigol.

Canfuom fod y tîm deintyddol yn gwneud defnydd da o dempledi cyfrifiadurol i gofnodi gofal a thriniaethau a gynlluniwyd i gleifion, er bod peth tystiolaeth o orddibyniaeth ar 'nodiadau awtomatig' (awgrymiadau electronig i helpu deintyddion i lenwi gwybodaeth).Golygai hyn nad oedd cofnodion y cleifion mor unigoledig ag y gallent fod, yn unol â chanllawiau arfer da. Gwelsom hefyd y gallai'r wybodaeth ynglŷn â pha mor aml y cynhaliwyd archwiliadau pelydr-X, a elwir yn sganiau 'bitewing',[8] fod wedi'i chofnodi'n gliriach mewn tri o'r cofnodion a welwyd.

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw a'u storio'n ddiogel yn y ganolfan ddeintyddol ar ffurf electronig a phapur.

[7] Offer sgrinio deintyddol a ddefnyddir i adnabod clefyd y deintgig yn gynnar yw'r Archwiliadau Periodontol Sylfaenol. Gall deintyddion roi cyngor i chi wedyn ynglŷn â sut i frwsio'ch dannedd a'r ffordd orau o ddefnyddio edau dannedd.
http://www.bdasmile.org/adults/adults.cfm?contentid=1097&contentparentid=1034

[8] Mae sganiau pelydr-X 'bitewing' yn dangos y dannedd cefn uchaf ac isaf, a sut mae'r dannedd yn cyffwrdd ei gilydd mewn un llun.Caiff y sganiau pelydr-X hyn eu defnyddio i sicrhau bod dim pydredd rhwng y dannedd, ac i ddangos pa mor syth yw'r dannedd uchaf ac isaf.Maent hefyd yn dangos colli asgwrn pan fo claf yn dioddef o glefyd y deintgig difrifol neu heintiau deintyddol.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Mae'r ganolfan ddeintyddol wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei rhedeg gan y prif ddeintydd, rheolwr y practis, a thîm o staff brwdfrydig. Roedd gweithdrefnau clinigol a phrosesau sicrwydd ansawdd priodol wedi'u sefydlu yn y practis er mwyn sicrhau diogelwch cleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi a bod ystod o gyfleoedd hyfforddi priodol ar gael iddynt.**

Mae Canolfan Ddeintyddol Porthceri'n ddeintyddfa annibynnol sydd wedi'i hen sefydlu. Mae'r prif ddeintydd yn cymryd rhan weithredol o ran rhedeg a rheoli'r ddeintyddfa o ddydd i ddydd, ac mae'n gweithio'n agos â rheolwr y practis. Mae gan aelodau eraill o'r tîm deintyddol gyfrifoldeb unigol pendant am agweddau ar redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd.

Mae Canolfan Ddeintyddol Porthceri yn bractis sy'n darparu hyfforddiant a chefnogaeth i ddeintyddion sydd newydd gymhwyso ac sy'n dilyn hyfforddiant blwyddyn gyntaf mewn deintyddiaeth (ar ôl graddio o brifysgol). Caiff y deintyddion hyn oruchwyliaeth gan hyfforddwr a bennwyd.

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y ganolfan ddeintyddol yn cael ei rhedeg yn dda, gan fod y gwaith dyddiol o weithredu'r gwasanaeth yn cael ei ategu gan amrywiaeth o weithdrefnau clinigol a phrosesau sicrwydd ansawdd er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel ac yn brydlon. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny trwy ystyried amrywiaeth o gofnodion a pholisïau, a thrwy drafodaethau gydag aelodau o'r tîm deintyddol.

Rhoddwyd copi inni o archwiliad rheoli heintiau a gwblhawyd yn 2014 gan ddefnyddio dull cydnabyddedig sy'n cyd-fynd yn benodol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd hyn wedi galluogi'r tîm deintyddol i hunanasesu eu practis ar sail y canllawiau, ac i ddatblygu cynllun gwella yn rhan o'r broses wella barhaus sy'n ofynnol. Yn ystod sgwrs â'r tîm deintyddol, gwelwyd eu bod yn rhoi pwyslais ar hybu gwasanaeth diogel ac o ansawdd da, drwy gynnal archwiliadau dyddiol ac wythnosol o ran defnyddio offer deintyddol.

Rhoddwyd copïau i ni hefyd o archwiliadau a gwblhawyd ar gyfer y gwasanaethau orthodontig a ddarperir yn y ganolfan ddeintyddol, o gofnodion cleifion, ac o archwiliad pelydr-X a gwblhawyd yn y blynyddoedd diweddar. Yn ogystal, gwelsom gopi o archwiliad mwy diweddar er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Ionawr 2015).Roeddem yn gallu cadarnhau bod cynlluniau gweithredu wedi'u llunio, bod camau wedi'u cymryd yn dilyn pob archwiliad, ac y gwnaed cymaint o welliannau ag yr oedd yn bosibl.

Gwelsom fanylion cyswllt y timau diogelu lleol mewn perthynas ag amddiffyn oedolion a phlant yn y dogfennau polisi, ac roedd pob aelod o'r staff wedi derbyn hyfforddiant yn ymwneud â threfniadau o ran amddiffyn plant. Yn ystod sgwrs â rheolwr y practis, nodwyd hefyd bod hyfforddiant staff ar amddiffyn oedolion wedi'i drefnu ar gyfer 17 Mehefin 2015.

Roedd elfen nyrsio a gweinyddol y tîm staff wedi'i hen sefydlu. Dywedwyd wrthym hefyd nad yw'r ganolfan ddeintyddol yn defnyddio staff deintyddol asiantaeth a bod lefelau salwch/ absenoldeb staff yn isel. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael gofal a thriniaeth gan staff sy'n gyfarwydd iddynt.

Gwelsom fod y ganolfan ddeintyddol wedi datblygu rhaglen sefydlu i sicrhau y darparwyd ffordd i unrhyw aelodau newydd o'r tîm deintyddol ymgyfarwyddo â phrosesau a gweithdrefnau sefydledig o ran gwasanaethau cleifion.

Dywedodd y staff nyrsio deintyddol y siaradwyd â nhw wrthym eu bod yn derbyn cefnogaeth dda iawn yn eu gwaith. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod nhw, ynghyd â'r deintyddion, yn mynychu cyfarfodydd staff misol lle y cânt gyfleoedd i fynegi unrhyw bryderon ynghylch y gwasanaethau a ddarperir i gleifion. Defnyddiwyd cyfarfodydd o'r fath hefyd i drosglwyddo gwybodaeth newydd/berthnasol i'r tîm deintyddol. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny drwy edrych ar y nodiadau a gedwir yn y ganolfan ddeintyddol, a oedd yn amlygu'r pynciau a'r materion perthnasol a drafodwyd gan y tîm.

O archwilio tystysgrifau hyfforddiant a gafwyd gan dri aelod i staff, gwelwyd eu bod wedi cwblhau hyfforddiant yn ystod 2014 a 2015 a oedd yn cynnwys sesiynau'n ymwneud ag adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) a diheintio/dadheintio offer deintyddol. Gwelsom hefyd fod y practis yn rhoi pwyslais ar hyfforddiant a datblygiad yn gyffredinol, a bod staff yn cael cefnogaeth i fynychu sesiynau hyfforddi perthnasol o'u dewis er mwyn eu cefnogi yn eu gwaith.

Yn ystod sgwrs â rheolwr y practis, cadarnhawyd bod staff yn cael arfarniad blynyddol, ac roedd hyn yn cynorthwyo'r broses o bennu pa un a oedd yr hyfforddiant a dderbyniwyd yn ystod y deuddeg mis blaenorol wedi bod yn effeithiol, a pha hyfforddiant oedd yn ofynnol yn y dyfodol. Roedd y broses arfarnu hefyd yn cynnig y cyfle i drafod yn agored y gwasanaethau a ddarperir yn y ganolfan ddeintyddol.

Gwelsom fod gan y ganolfan ddeintyddol dystiolaeth gyfredol o frechiad hepatitis B ar gyfer yr holl aelodau staff. Cadarnhaodd sgwrs â rheolwr y practis hefyd fod trefniadau addas wedi'u sefydlu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro er mwyn cael brechiadau, cymorth a chyngor gan yr adran iechyd galwedigaethol pan fo angen hynny. Mae hyn yn golygu bod y ganolfan ddeintyddol wedi cymryd camau priodol i amddiffyn staff a chleifion rhag feirysau a gludir yn y gwaed.

Yn ystod trafodaeth â nyrsys deintyddol a staff y dderbynfa, gwelwyd eu bod yn teimlo’n hyderus i fynegi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch y gwasanaethau a ddarperir yn y ganolfan ddeintyddol. Roedd gweithdrefn chwythu’r chwiban wedi'i sefydlu hefyd.

Roedd tystysgrifau AGIC yn ymwneud â'r ddeintyddiaeth breifat a ddarperir yn y practis wedi’u harddangos yn glir yn y dderbynfa, fel sy'n ofynnol dan reoliadau deintyddiaeth breifat.

O archwilio amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw a gedwir yn y practis, gwelwyd bod systemau a phrosesau addas wedi'u sefydlu i sicrhau bod offer yn cael ei archwilio yn brydlon ac yn unol â'r gofynion gorfodol.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Roedd safle'r ganolfan ddeintyddol yn cynnig amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Roedd pob rhan o’r adeilad yn lân, yn groesawgar, yn ffres ac yn daclus.**

Mae Canolfan Ddeintyddol Porthceri mewn ardal breswyl sefydlog ar Heol Porthceri, yn agos i dref y Barri.

Nid oedd unrhyw lefydd parcio dynodedig ar gael yn y ganolfan ddeintyddol. Fodd bynnag, roedd lleoedd parcio posibl ar gael yn union y tu allan i'r ganolfan ddeintyddol ac ar y strydoedd o'i hamgylch.

Roedd llawr daear y ganolfan ddeintyddol yn cynnwys derbynfa ac un ystafell driniaeth, gan alluogi cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn i gael gofal a thriniaeth ddeintyddol mewn modd diogel. Roedd y tair ystafell driniaeth arall ar lawr cyntaf yr adeilad, a darperid canllawiau i gynorthwyo cleifion wrth ddefnyddio'r grisiau.

Gwelsom fod un man aros â seddau ar y llawr daear ac un ar y llawr cyntaf, a rhyngddynt roedd digon o le i'r cleifion aros o ystyried sawl ystafell driniaeth oedd yno.

Roedd toiled ar gyfer cleifion a staff ar y llawr cyntaf ac arwyddion clir ato. Gwelsom fod y ganolfan ddeintyddol wedi rhoi cyfleusterau toiled ar y llawr daear yng nghefn yr adeilad, ac roedd modd mynd yno trwy giât ochr. Roedd gris bach yn arwain at y toiled llawr daear hwnnw, ond yn ystod trafodaethau â'r staff, gwelwyd bod cleifion a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn i gyd wedi gallu defnyddio'r cyfleuster yn ddiogel hyd yn hyn. Roedd y cyfleusterau toiled i gyd yn lân ac yn hylan, ac roeddent yn cynnwys cyfleusterau golchi/sychu dwylo addas.

Darparwyd cwpwrdd cloadwy a man newid dillad ar gyfer y staff ar yr ail lawr yn yr adeilad, wrth ochr swyddfa rheolwr y practis. Roedd cegin ar gael i'r tîm deintyddol ar y llawr daear hefyd.

Gwelsom fod gan y practis ddogfennaeth ddilys ar gyfer yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Roedd pob rhan o’r adeilad yn lân, yn groesawgar, yn ffres ac yn daclus. Gwelsom fod y practis wedi’i wresogi a’i awyru’n ddigonol a bod goleuadau addas yno.

Gwelsom fod mesurau priodol wedi'u sefydlu er mwyn atal mynediad heb ganiatâd i'r ganolfan ddeintyddol.

Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion wedi’u harddangos yn glir ar flaen yr adeilad, ynghyd â rhif ffôn y practis a'r gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.

## 6. Y Camau Nesaf

Gan na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn, nid yw'n ofynnol i'r practis gwblhau cynllun gwella.